
# Cymeriadau Difyr



| Llyfr: | **Alun Un (1)** |
|---|---|
| Adnoddau: | Map o'r ardal allanol neu daflen yn dangos gwrthrychau. |
| Camau: | Cam 1 – Darllenwch a thrafodwch y llyfr ‘Cymeriadau Difyr: Alun Un.’<br><br>Cam 2 - Helfa Drysor.<br>O gwmpas yr ardal allanol, cuddiwch wrthrychau diriaethol. Rhowch fap i’r dysgwyr yn dangos lle rydych chi wedi cuddio pethau.<br>Neu, yn lle defnyddio map, gallech chi ddefnyddio taflen sy’n dangos y gwrthrychau rydych chi wedi eu cuddio, e.e pensil, deilen, pêl, numicon, carreg…<br>Anogwch y plant i chwilio am y rhain a dod nôl ag un o bopeth i'r tuff tray. |
| Cwestiynu: | Sawl gwrthrych sydd gyda chi i gyd?<br>Faint sydd angen eu tynnu allan i adael 1 gwrthrych? Beth yw un yn fwy na 1? Beth yw un yn llai na 1? |
| Beth nesaf? | Ewch o gwmpas yr ysgol. Ydych chi'n gweld 1 o'ch cwmpas? |



Peniarth .cymru

adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales